TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# IMI Achrediad mewn Paent - Uwch Dechnegydd Lefel 3



**Yn gryno**

Mae Sefydliad y Diwydiant Moduron (IMI) yn cydnabod cymhwysedd presennol gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio yn y diwydiant manwerthu moduron a'u hymrwymiad i god ymddygiad moesegol. Er mwyn ennill achrediad IMI, mae'n ofynnol i chi basio cyfres o fodiwlau gwybodaeth a sgiliau ymarferol (sy'n rhan o'r cwrs hwn) ar Gampws Dinas Casnewydd (Canolfan gymeradwy ar gyfer cyrsiau IMI).

**Mae'r cwrs hwn ar gyfer...**

...unrhyw un sy'n dymuno bod yn rhan o IMI

...peirianwyr sy'n dymuno cael cydnabyddiaeth gan gorff dyfarnu

**Cynnwys y cwrs**

Byddwch yn astudio'r modiwlau canlynol:

Polisio Paneli (Presennol) AOM 014

Adnabod Lliw ac Amrywiad Lliw AOM 015

Paratoi Arwyneb AOM 016

Arwyneb Parod - Fflatio AOM 017

Selio Paneli AOM 018

Paratoi'r Panel (Panel Newydd) AOM 019

Paent Preimio Gwlyb ar Wlyb (taenu) AOM 020

Paent Lliw Perl Tri Cham (taenu) AOM 021

Diffygion Paent a Gweithdrefn Gywiro AOM 023

Unwaith y byddwch wedi pasio'r holl Fodiwlau Canlyniad wedi ei Asesu (AOM) o fewn llwybr penodol byddwch yn cael Cerdyn Adnabod IMI (cerdyn adnabod llun) sy'n ddilys am gyfnod o dair blynedd.

Byddwch hefyd yn cael eich cydnabod drwy gofrestr gyhoeddus ATA sy'n caniatáu i ddefnyddwyr edrych ar dechnegwyr sy'n gymwys ar hyn o bryd.

Asesu

Bydd hyn fel rheol yn asesiad dau ddiwrnod, a fydd hefyd yn cynnwys arholiad amlddewis ar-lein.

Ymhlith y buddion i unigolion a chyflogwyr mae'r canlynol:

Mae IMI yn rhoi sicrwydd bod sgiliau a gwybodaeth yr unigolyn achrededig wedi cael eu hasesu yn erbyn y safon a gytunir gan y diwydiant
Adolygir safonau IMI yn rheolaidd i alinio â thechnoleg, methodoleg a deddfwriaeth gyfredol
Mae unigolion wedi eu hachredu gan yr IMI yn cytuno i'r cod ymddygiad - ac wrth wneud hynny, maent yn ymrwymo i weithio'n foesegol yn ein diwydiant
Mae IMI yn darparu 'meincnod ar gyfer sgiliau' y gellir ei ddefnyddio at ddibenion hyfforddi a recriwtio. Mae'n llwybr datblygu cydnabyddedig i unigolion a chyflogwyr fel ei gilydd.
Mae IMI yn darparu asesiad teg ond trwyadl. Sicrheir ansawdd a chysondeb y broses asesu drwy ddefnyddio sefydliad dyfarnu a gydnabyddir yn genedlaethol

# TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

**Gofynion Mynediad**

Dylech fod yn gweithio yn sector atgyweirio damweiniau'r diwydiant a meddu ar o leiaf tair blynedd o brofiad i sicrhau eich bod yn gyfarwydd â'r sgiliau, y wybodaeth a'r technegau sydd eu hangen i sicrhau gorffeniad perffaith wrth baratoi a gorffen paneli (hen a newydd) i gyd-fynd â phaent presennol y cerbyd.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Sefydliad y Diwydiant Moduron (IMI) yw'r gymdeithas broffesiynol a'r Cyngor Sgiliau Sector ar gyfer y Diwydiant Manwerthu Moduron. Rhaid i chi gytuno i God Ymddygiad IMI, a chydymffurfio ag ef.

I gynnal eich achrediad a phrofi cymhwysedd presennol, rhaid i chi gael eich ail-asesu bob tair blynedd.